

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social Research

Rhif: 02/2012




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg Ymwelwyr Cymru 2011

Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros - Crynodeb Gweithredol



**Arolwg Ymwelwyr Cymru 2011: Ymwelwyr o'r DU a
fu'n aros
Ymchwil ar ran Croeso Cymru**

Claire Peate, Beaufort Research Ltd.

The logo for Beaufort Research, featuring the text "beaufortresearch" in white lowercase letters on a dark purple rectangular background.

beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth
Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Robert Lewis

Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystad Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

E-bost: robert.lewis@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

ISBN 978 0 7504 6944 9

© Hawlfraint y Goron 2012

1. CYFLWYNIAD AC AMCANION

Fel rhan o'i swyddogaeth statudol i hyrwyddo, datblygu a monitro twristiaeth yng Nghymru, mae Croeso Cymru'n ymgymryd â rhaglen reolaidd o ymchwil i ddarparu gwybodaeth am faint, gwerth a nodweddion twristiaeth yng Nghymru.

Ar ddiwedd 2010 comisiynodd Croeso Cymru Beaufort Research i gynnal astudiaeth ymchwil ymhlith ymwelwyr o dramor a'r DU i Gymru, a oedd yn aros dros nos ac a oedd yn ymweld am ddiwrnod, rhwng mis Ebrill a mis Medi 2011. Roedd hyn yn dyblygu ac yn diweddarau arolygon tebyg, a gynhaliwyd ymhlith Ymwelwyr fu'n Aros yn 2000, 2001, 2003, 2006 ac Ymwelwyr a fu'n Aros a Ymwelwyr| Undydd yn 2009.

Amcan cyffredinol yr astudiaeth oedd gwella a datblygu dealltwriaeth Croeso Cymru o gymhellion, anghenion ac ymddygiad ymwelwyr â Chymru.

Er bod y prosiect wedi cael ei gomisiynu gan Croeso Cymru, ac yn ystyried barn eang ymwelwyr â Chymru, gwnaeth nifer o awdurdodau lleol a dau gorff cyhoeddus fanteisio ar y gwaith ymchwil a chytuno i gymryd rhan drwy roi hwb i nifer y cyfweiliadau mewn lleoliadau penodol, ac ychwanegu cwestiynau sy'n benodol i ardal yr arolwg er mwyn mesur elfennau *lleol* penodol o brofiad yr ymwelydd.

Y rhai hynny a gymerodd ran yn Arolwg Ymwelwyr y DU 2011 oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Conwy
- Cyngor Sir Ceredigion
- CyMAL
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
- Twristiaeth De Cymru

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn ymwneud ag Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros yng Nghymru yn unig - mae'r canfyddiadau ar gyfer Ymwelydd Undydd o'r DU ac Ymwelwyr o Dramor wedi'u cyhoeddi ar wahân. Yn ogystal, ceir adroddiad llawn ar gyfer Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros.

2. METHODOLEG

Diffiniwyd y sampl ar gyfer yr arolwg cyfan fel pobl 16 oed neu'n hŷn, ar daith i / yng Nghymru naill ai fel Ymwelydd a fu'n Aros neu Ymwelydd Undydd. Cafodd y rhai a ymwelodd ar gyfer siopa, mynychu apwyntiad cyffredinol, ar fusnes, neu i astudio eu heithrio.

- I **Ymwelwyr Undydd** rhaid bod yr ymatebydd wedi treulio tair awr neu fwy oddi cartref, yn cynnwys teithio.
- I **Ymwelwyr a fu'n Aros** rhaid bod yr ymatebydd wedi treulio nifer benodol o nosweithiau yng Nghymru, yn unol â hyd eu hymweliad cyffredinol.

I Ymwelwyr a fu'n Aros, nifer y nosweithiau y bu'n rhaid iddynt aros er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyfweliad oedd:

Taith un noson	ni arhoswyd dros nos ar adeg y cyfweliad
Taith dwy-dair noson	arhoswyd o leiaf un noson ar adeg y cyfweliad
Taith pedair noson neu fwy	arhoswyd o leiaf dwy noson ar adeg y cyfweliad

Cynhaliwyd yr arolwg drwy raglen **dau gam**. I ddechrau, cafodd yr ymwelwyr gyfweliadau wyneb yn wyneb (Cam I) mewn mannau gwahanol ar draws Cymru.

Lluniwyd a gweinyddwyd holiadur deg munud a gwnaethpwyd cais i gynnal ymchwil dilynol gyda chyfweliad ar-lein (Cam II) ar ôl i'r ymwelydd gwblhau ei taith. Anfonwyd gwahoddiad ar gyfer y cyfweliad ar-lein dilynol hwn, ac fe'i hanfonwyd at yr ymatebydd 2-3 wythnos ar ôl y cyfweliad cychwynnol gyda dolen gyswilt i'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan Beaufort Research. Y rheswm dros feithrin y dull dau gam hwn oedd holi amrywiaeth ehangach o gwestiynau i'r ymatebydd nag y byddai'n bosibl fel arall mewn cyfweliad wyneb yn wyneb ar y stryd.

Cynhaliwyd cyfanswm o **4,750** o gyfweliadau yng Ngham I ac aeth **675** o ymwelwyr ati i gwblhau Cam II.

Gan fod nifer o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn ac wedi rhoi hwb i'r niferoedd sampl yn eu hardaloedd, nid oedd y set data terfynol yn gynrychioladol o ymwelwyr â Chymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn yn y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli'n ôl i adlewyrchu cyfran yr ymwelwyr â Chymru ar lefel awdurdod lleol - gan sicrhau sampl gynrychioladol ar lefel Cymru gyfan. Mae'r effaith o bwysoli'r data i'w gweld yn Nhablau 1a ac 1b ar gyfer Cam I a II o'r gwaith ymchwil. Mae'r dimensiynau a ddangosir yn cyfateb â'r rhai a ddefnyddiwyd yn y croes dabladau.

Rydym wedi newid sail data 2009 gan eithrio Ymwelwyr o Dramor er mwyn helpu ei gymharu â data 2011. Lle mae geiriad cwestiynau ac opsiynau atebion wedi cael eu haddasu rhwng 2009 a 2011 dylid trin y data â gofal: gallai gwahaniaethau fod yn sgil y newidiadau semantig a rhifol yn hytrach nag yn sgil gwahaniaethau gwirioneddol. Drwy gydol yr adroddiad mae'r cwestiynau lle mae'r newidiadau hyn yn gymwys wedi cael eu amlygu.

3. CRYNODEB GWEITHREDOL

- **Mae proffil yr Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros yn tueddu i fod yn nemograffig ABC1 yn bennaf** (Tabl 1), gyda dros dau o bob pump yn y segment *Pobl y mae eu plant wedi gadael cartref* a bron i draean yn *Deuluoedd* (Tabl 2).
- **Mae ymwelwyr dychwel yn cyfrif am bron i dri chwarter o'r holl Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros:** ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru (81% yn ymwelwyr dychwel) ac ar ei isaf yn Ne Cymru (68%). Mae'r ymwelwyr newydd yn cyfrif am 12% yn gyffredinol ac mae cyn-ymwelwyr (y rhai sydd wedi ymweld o'r blaen ond nid o fewn y tair blynedd diwethaf) yn cyfrif am 15% o'r Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros (Tabl 3).
- **Mae bodlonrwydd ar y daith yn uchel:** roedd bron i hanner (45%) wedi graddio 10/10 i Gymru ar gyfer *Cymru fel lle i ymweld ag ef yn gyffredinol*. (Siart 1):
- **Mae elfennau gorau'r daith yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chyfeillgarwch y bobl.** Mae'r elfennau nad ydynt yn perfformio mor dda (ond sydd yn parhau i fod yn bositif) yn gysylltiedig â chyfleusterau masnachol i dwristiaid fel siopau a lleoedd i fwyta. (Tabl 8).
- **Mae gan dros hanner y gallu i fynd ar y rhyngrwyd:** mae gan bron i un o bob tri Ymwelydd o'r DU a fu'n Aros fynediad i'r rhyngrwyd ac wedi'i ddefnyddio i ddod o hyd i bethau yn ystod eu taith. (Tabl 4).
- **Mae'r arfer o ddefnyddio gwefannau fel ffynonellau gwybodaeth cyn y daith ar gynnydd:** mae bron i hanner wedi ymgynghori â gwefan i gael gwybodaeth cyn eu taith (i fyny o chwarter yn 2009). (Tabl 5).
- **Yn ystod yr ymweliad *taflenni mewn atyniadau a/neu lety yw'r ffynonellau gwybodaeth y sonnir amdanynt fwyaf*,** gyda bron i dri ym mhob pump yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth hyn. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan *Ganolfannau Croeso*: sy'n cael eu defnyddio gan ychydig dros draean o Ymwelwyr o'r DU a fu'n Aros (uchaf yng Nghanolbarth Cymru). (Tabl 6).
- **Gwestai canolig a mawr yw'r math o lety y sonnir amdano amlaf** (gydag 17% yn aros yn y llety hwn), wedi'i ddilyn gan *feysydd gwerysyla* (12%) a *bwthyn / tŷ hunanarlwyo* (11%). (Tabl 7).

Tabl 1: Grŵp Economaidd Gymdeithasol - data Cam I

	Proffil y DU*	Math o ymwelwr		CYFANSWM		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
		Newydd / cyn-ymwelydd	Dychwel	2011	2009	Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
ABC1	51%	69%	67%	67%	68%	61%	70%	68%	74%
C2DE	49%	30%	32%	32%	32%	38%	30%	30%	25%
Maint y sampl	-	623	1,814	2,504	2,935	661	1,047	387	409

Sail: Pob Ymwelydd a fu'n Aros

*Ffynhonnell: Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad 2006, Grwpio Galwedigaethol (6^{ed} Rhifyn).

Tabl 2: Cyfnod bywyd - data Cam I

	CYFANSWM		Math o ymwelwr		Trigolion Cymru	Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
	2011	2009	Newydd / cyn-ymwelydd	Dychwel		Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
Pobl ifanc annibynnol <i>Pobl o dan 35 oed, dim plant yn byw gartref</i>	9%	11%	11%	8%	12%	6%	7%	16%	7%
Pobl hŷn annibynnol <i>Pobl 35-54 oed, dim plant yn byw gartref</i>	20%	18%	20%	19%	21%	18%	20%	23%	18%
Teuluoedd <i>Unrhyw blant yn byw gartref</i>	30%	30%	26%	31%	26%	37%	31%	22%	26%
Pobl y mae eu plant wedi gadael cartref <i>Pobl 55+, dim plant yn byw gartref</i>	42%	40%	43%	41%	41%	39%	42%	39%	50%
Maint y sampl	2,463	2,935	613	1,785	432	653	1,030	376	404


Sail: pob Ymwelydd a fu'n Aros

Tabl 3: Ymwelwyr newydd / dychwel - data Cam I

	CYFANSWM		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
	2011	2009	Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
Ymwelydd Newydd	12%	14%	8%	12%	18%	13%
Cyn-ymwelydd	15%	12%	12%	15%	15%	19%
Ymwelydd Dychwel	73%	74%	81%	73%	67%	68%
Maint y sampl	2,437	2,935	637	1,027	373	400

Sail: pob Ymwelydd a fu'n Aros

Siart 1



Tabl 4: Mynediad i'r rhyngwrwd yn ystod y daith - data Cam I.

	CYFANSWM	Math o ymwelwr		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
		2011	Newydd / cyn-ymwelydd	Dychwel	Gogledd	Canolbarth	De
% sydd â mynediad i'r rhyngwrwd drwy ddyfais symudol / a ddelir yn y llaw yn ystod y daith*	55%	51%	56%	62%	49%	55%	49%
% sydd â mynediad <u>ac</u> sydd wedi'i ddefnyddio yn ystod eu taith	30%	30%	30%	37%	27%	27%	25%
Maint y sampl	2,504	623	1,814	661	1,047	387	409

Sail: pob Ymwelydd a fu'n Aros

Tabl 5: Ffynhonnell o wybodaeth cyn y daith - data Cam II

	CYFANSWM		Math o ymwelwr		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
	2011	2009	Newydd / cyn- ymwelydd	Dychwel	Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
Gwybodaeth yn seiliedig ar ymweliad blaenorol	53%	64%	38%	58%	53%	60%	51%	47%
Gwefannau	44%	24%	44%	43%	43%	48%	47%	38%
Cyngor gan ffrindiau/ teulu	27%	1%	28%	28%	26%	30%	35%	19%
Gwybodaeth yn uniongyrchol gan Croeso Cymru/ canolfannau croeso	17%	9%	21%	15%	18%	21%	20%	9%
Yn byw gerllaw felly'n gwybod eisoes	15%	5%	21%	13%	9%	10%	20%	22%
Tywyslyfrau (e.e. Time Out, Lonely Planet, Rough Guide)	9%	13%	5%	11%	7%	11%	12%	9%
Cyngor neu argymhelliad gan ddarparwr llety	7%	0%	9%	6%	4%	7%	11%	6%
Rhaglen deithio/ nodwedd	6%	4%	5%	6%	5%	8%	5%	6%
Hysbyseb mewn papur newydd neu gylchgrawn	4%	8%	3%	5%	4%	5%	5%	3%
Taflen gweithredwr teithio	2%	6%	6%	1%	2%	2%	2%	3%
Hysbysebion teledu, radio, sinema	1%	3%	2%	1%	0%	3%	2%	0%
Cyngor neu argymhelliad gan asiant deithio	1%	0%	1%	0%	1%	1%	0%	0%
Cymwysiadau ffôn symudol	1%	0%	1%	3%	1%	4%	4%	0%
Ymweld ag arddangosfa neu ffair wyliau neu deithio	0%	2%	1%	0%	1%	0%	0%	0%
Arall	5%	7%	3%	6%	2%	6%	4%	9%
Heb gyfeirio at unrhyw beth cyn yr ymweliad	9%	4%	11%	10%	13%	8%	7%	6%
Maint y sampl	396	481	97*	293	101	178	85*	32*

Sail: pobl Ymwelydd a fu'n Aros

Rhybudd: mae geiriad y cwestiwn yn newid rhwng 2009 a 2011

*Rhybudd: sail fach

Tabl 6: Ffynhonnell o wybodaeth yn ystod y daith - data Cam II

	CYFANSWM		Math o ymwelwr		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
	2011	2009	Newydd / cyn- ymwelydd	Ailadroddwch	Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
Tafenni mewn atyniadau/ llety	58%	72%	48%	62%	51%	68%	59%	80%
Canolfannau Croeso	33%	46%	32%	33%	27%	45%	34%	31%
Gwefan (gwefannau)	18%	5%	21%	16%	20%	19%	21%	9%
Papurau newydd lleol	9%	15%	6%	11%	9%	8%	5%	16%
Cymwysiadau ffôn symudol	5%	0%	2%	6%	6%	7%	4%	3%
Ymholiadau gan ddefnyddio'r Cyfeiriadur	1%	1%	0%	1%	0%	0%	0%	3%
Arall	4%	6%	2%	5%	2%	3%	6%	6%
Heb ddefnyddio'r un ohonynt	27%	7%	31%	25%	31%	18%	24%	34%
Maint y sampl	396	481	97*	293	101	178	85*	32*

Sail: pob Ymwelydd a fu'n Aros

*Rhybudd: sail fach

Tabl 7: Math o lety a ddefnyddiwyd - data Cam I

	CYFANSWM		Math o ymwelwr		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
	2011	2009	Newydd / cyn- ymwelydd	Dychwel	Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
Gwesty canolog neu fawr (11 ystafell +)	17%	19%*	25%	14%	13%	6%	34%	15%
Gwersyllfa	12%	16%	11%	12%	11%	19%	8%	12%
Tŷ / bwthyn hunan arlwy	11%	13%	14%	10%	9%	18%	6%	16%
Carafán statig eich hun	10%	-	1%	13%	17%	10%	3%	7%
Cartref perthynas	8%	11%	4%	10%	7%	6%	13%	8%
Carafán sy'n cael ei dynnu	7%	-	7%	7%	9%	6%	5%	6%
Cartref ffrind	6%	8%	5%	7%	3%	6%	10%	6%
Gwely a brecwast	6%	-	7%	6%	5%	5%	6%	9%
Carafán statig / wedi'i logi	5%	-	6%	4%	11%	2%	0%	3%
Carafán / chalet wedi'i logi	4%	10%	5%	5%	4%	6%	4%	3%
Gwesty bach (10 ystafell neu lai)	3%	19%*	5%	3%	1%	3%	4%	6%
Gwesty preifat	1%	7%	1%	1%	1%	2%	1%	1%
Ffermdy	1%	1%	2%	1%	1%	1%	0%	1%
Fflat hunan arlwy	1%	-	2%	1%	1%	2%	1%	3%
Hostel	1%	1%	1%	1%	1%	1%	1%	0%
Canolfan/ parc hamdden (nid carafán)	1%	1%	2%	1%	2%	1%	0%	1%
Arall	4%	11%	3%	4%	5%	5%	1%	4%
Maint y sampl	2,504	2,935	623	1,814	661	1,047	387	409

Sail: Pob Ymwelydd a fu'n Aros

*Gwesty heb ei rannu'n westy mawr/bach yn arolwg 2009 felly mae'r un gwerth o 19% yn cael ei ddangos yn y ddau gategori.

Tabl 8: Sgorau cyfnewid - bodlonrwydd ar ddimensiynau'r daith (yn ystod yr ymweliad) - data Cam 1

	CYFANSWM		Math o ymwelwr		Rhanbarth ymwelwyd ag ef			
	2011	2009	Newydd / cyn- ymwelydd	Dychwel	Gogledd	Canolbarth	De	Gorllewin
Ansawdd yr amgylchedd naturiol	9.33	-	9.28	9.35	9.25	9.51	9.15	9.48
Cyfeillgarwch pobl	9.17	8.86	9.23	9.14	8.98	9.22	9.33	9.22
Cymru yn gyffredinol fel lle i ymweld ag ef	9.05	-	8.85	9.12	8.93	9.15	9.07	9.14
Glendid yr amgylchedd cyffredinol	8.89	-	8.90	8.89	8.75	9.14	8.79	9.02
Atyniadau a lleoedd i ymweld â nhw	8.74	8.60	8.69	8.76	8.68	8.76	8.86	8.70
Gwybodaeth i ymwelwyr yn ystod eich taith	8.62	-	8.47	8.68	8.56	8.80	8.50	8.67
Safon yr arwyddion i dwristiaid	8.43	-	8.30	8.49	8.48	8.66	8.31	8.29
Gwerth da am arian yn gyffredinol	8.41	-	8.33	8.45	8.36	8.54	8.39	8.39
Siopa	8.27	7.60	8.15	8.32	8.19	8.03	8.61	8.18
Lleoedd i fwyta ac yfed	8.26	8.08	8.29	8.24	8.07	8.24	8.54	8.25
Maint y sampl	2,504	2,935	623	1,814	661	1,047	387	409

Sail: pob Ymwelydd a fu'n Aros
Rhybudd: mae graddfeydd y marciau wedi newid rhwng 2009 a 2011.